# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

Lleoliad:

**Neuadd Huw Owen, Y Ganolfan Rheolaeth, Prifysgol Bangor**

Dyddiad: Dydd Gwener, 14 Gorffennaf 2017

Amser: 10.05 - 12.20

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4480

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Ann Jones AC (Cadeirydd)<br>Jayne Bryant AC<br>Russell George AC<br>John Griffiths AC<br>Mike Hedges AC<br>Huw Irranca-Davies AC<br>Bethan Jenkins AC<br>Dai Lloyd AC<br>Nick Ramsay AC<br>David Rees AC<br>David J Rowlands AC<br>Simon Thomas AC |
| Tystion: | Carwyn Jones AC, Prif Weinidog Cymru<br>Huw Morris, Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| | Gwenllian Roberts,, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Catherine Hunt (Ail Glerc)<br><br>Kath Thomas (Ail Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Cafwyd ymddiheuriadau gan Lynne Neagle AC.
1.2 Croesawodd y Cadeirydd y Prif Weinidog a'i swyddogion i'r cyfarfod.

## 2 Sesiwn Graffu ar waith y Gweinidog - Dull Gweithredu Llywodraeth Cymru o ran Adeiladu Economi Gref

1.1 O ystyried Datganiad Ysgrifenedig y Prif Weinidog ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), a gyhoeddwyd ar 13 Gorffennaf, gofynnodd y Pwyllgor nifer o gwestiynau i'r Prif Weinidog am ei Ddatganiad ac ar oblygiadau'r Bil i Gymru.

1.2 Craffodd y Pwyllgor ar waith y Prif Weinidog ynghylch dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran adeiladu economi gref. Cytunodd y Prif Weinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth neu eglurhad i'r Pwyllgor ynghylch:

- Pwy fyddai'n cymryd yr awenau i fynd â'r fasnachfraint rheilffyrdd yn ei blaen pe bai'r broses gaffael yn mynd i drafferthion;
- Cefnogaeth bellach ar gyfer y rhai sydd am greu ffynonellau newyddion newydd;
- Ffyrdd y gallai Llywodraeth Cymru annog a chefnogi staff medrus y GIG sy'n dod i ddiwedd eu gyrfa i ysbrydoli pobl ifanc i ystyried gyrfa yn y GIG yng Nghymru ac i drosglwyddo eu profiad, eu gwybodaeth a'u sgiliau cyn iddynt ymddeol.

## 3 Sesiwn i Graffu ar Waith y Gweinidog - Materion Amserol

Gofynnodd y Pwyllgor nifer o gwestiynau i'r Prif Weinidog ar faterion amserol.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Trafod y dystiolaeth o'r Sesiwn Flaenorol

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd yn y sesiwn flaenorol a chytunodd i ysgrifennu at y Prif Weinidog i ofyn am ragor o wybodaeth am nifer o faterion.